25. TWYLLWYD
(stori o'r ddeunawfed ganrif)

Cardinal o Ffrancwr oedd Louis René Edward Rohan (fe'i galwn yn Ron) o'r ddeunawfed ganrif. Fel y rhan fwyaf o Ffrancwyr y cyfnod cerddai o amgylch fel ceiliog balch yn ei drowsus tyn, ei wisg ysblennydd, a'i wên aruchel. Ond wrth i ni gyfarfod â Ron am y tro cyntaf, nid yw'n gwenu. Mae ganddo broblem. Er gwaethaf ei holl ymdrechion caled mae'n methu â thynnu sylw'r Frenhines Marie Antoinette.

I fod yn onest, rhesymau hunanol oedd gan Ron tros geisio ffafr y frenhines. Yr oedd Ron yn greadur uchelgeisiol. A gwyddai na chyrhaeddai ei nod heb gymorth y frenhines.

Un gŵr a gefnogai Ron oedd ei gyfaill Cagliostro – gŵr od a dweud y lleiaf. Honnai Cagliostro ei fod wedi byw yng nghyfnod y Pharo, a disgrifiai ei hunan fel proffwyd. (Mae ganddo farf i brofi hyn!) Byddai ambell un yn wir yn tybio nad oedd yn llawn llathen. Ond wedi cyfnod yng nghwmni Cagliostro, byddai gwên yn sicr o ddychwelyd i wyneb Ron. Roedd Cagliostro yn bendant fod Ron am lwyddo yn ei uchelgais.

Un diwrnod derbyniodd Ron ymwelydd annisgwyl. Gwraig o'r enw Jeanne ydoedd a honnai ei bod yn gyfaill pennaf y frenhines.

‘Dwi a Marie Antoinette fel dwy chwaer!’ meddai. ‘Os hoffet ti gallwn ennyn ei diddordeb yn dy yrfa.’

Os hoffet ti! Roedd Ron nid yn unig yn hoffi’r syniad, roedd wrth ei *fodd*.

Ymhen ychydig ddyddiau dychwelodd Jeanne gyda newyddion addawol. ‘Dwi wedi siarad â’r frenhines,’ meddai. ‘Cadw dy lygaid ar agor pan fydd y llys yn cyfarfod y tro nesaf. Bydd y frenhines yn amneidio ei phen tuag atat fel arwydd o’i hewyllys da.’

Gwyliodd Ron y frenhines fel barcud yng nghyfarfod nesaf y llys. Petaech chi’n sefyll gerllaw Ron y diwrnod hwnnw mae’n debyg na sylwech ar ddim anarferol. Ond, wedi ei danio gan broffwydoliaethau Cagliostro, yr oedd Ron yn sicr ei fod wedi gweld y frenhines yn amneidio ei phen wrth edrych tuag ato.

Wedi’r profiad hwnnw, ymddangosai nad oedd dim y tu hwnt i allu Jeanne. I ddechrau, perswadiodd Marie Antoinette i ysgrifennu at Ron – llythyrau hynaws ar bapur ag ymylon euraidd a’r arwyddlun brenhinol arno. Yna perswadiodd y frenhines i gyfarfod â Ron a rhoi rhosyn iddo. Digwyddodd y cyfarfod ar noson dywyll, ddileuad, yn Awst mewn llecyn deiliog ar dir y palas. Pe baech wedi bod gyda Ron y noswaith honno byddech wedi amau pam yr oedd hi mor angenrheidiol i’r frenhines wisgo fêl mor drwchus ar noson mor gynnes a pham y bu i Jeanne ei lusgo oddi yno mor gyflym. Ond roedd Ron yn gwbl ddiniwed. Onid oedd Cagliostro wedi proffwydo hyn? Heb os, roedd y rhosyn yn arwydd o ddyfodol llewyrchus.

Yn dilyn hyn daw cais arbennig iawn. Perswadiodd Jeanne y frenhines i ofyn am gymorth Ron i brynu’r gemwaith mwyaf drudfawr yn Ffrainc: cadwyn ddeiamwnt oedd yn werth ymhell tros filiwn o bunnau. Y cyfan fyddai’n rhaid iddo’i wneud oedd casglu’r gadwyn oddi wrth y gemydd a’i throsglwyddo i’w chyfaill annwyl Jeanne.

Petaech chi wedi bod ynghlwm â throsglwyddo’r gadwyn byddech mae’n debyg wedi holi ambell gwestiwn – megis sut y gellid bod yn sicr y byddai Jeanne *yn* cyflwyno’r gadwyn i’r frenhines. Ond nid yw Ron yn ddrwgdybus. Dim gyda phroffwydoliaethau Cagliostro yn canu yn ei glustiau. Fe wna yn union yr hyn a ddywed Jeanne:

llunia gytundeb gyda'r gemydd, caiff y gadwyn a daw â hi i'w chartref yn Versailles.

Ychydig fisoedd yn ddiweddarach ymddangosai fel petai ei holl ymdrechion ar fin cael eu gwobrwyo. Danfonodd y Brenin Louis gais i'w weld.

'Ys gwn i pam?' Crafa Ron ei ên yn ddisgwylgar tra sylla Cagliostro i mewn i'w bêl risial.

'Fy nghyfaill, yr wyf yn darogan mawredd i ti. Yn fuan fe fyddi'n dal y swydd uchaf trwy Ffrainc gyfan!' Wrth gychwyn am Versailles teimlai Ron yn fodlon fel cath foddhaus a gafodd y cwbl o'r hufen.

'Paratowch y ffordd ar gyfer eich darpar brif weinidog,' meddyliodd wrth gamu o'r goets ac ysgubo trwy'r cyntedd drychau. Sythodd ei wìg wrth syllu mewn drych, twtiodd ei drowsus tyn cyn mynd i mewn i ystafell y brenin.

Yno, eisteddai'r brenin gyda'r frenhines Marie Antoinette wrth ei ochr.

Ond yr oedd rhywbeth o'i le. Yr oedd y frenhines, yr un y bu'n ei gwasanaethu mor dda, a golwg hynod flin a chas ar ei hwyneb.

'Fedri di egluro hyn?' Taflodd y Brenin Louis lythyr ar draws y bwrdd yn oeraidd.

Darllena Ron y llythyr ond ni wêl ddim o'i le. Llythyr gan y gemydd ydoedd.

'Annwyl Frenin,' meddai. 'Dim ond llythyr i'ch atgoffa na chefais mo 'nhalu am y gadwyn a gasglwyd gan y Cardinal Louis René Edward Rohan ar ran y frenhines.' Felly wir? Cododd Ron ei aeliau. Yr oedd wedi trosglwyddo'r gadwyn. Os oedd y brenin a'r frenhines heb dalu am y gadwyn, yna eu problem hwy oedd hynny.

'Dderbyniodd ei mawrhydi yr un gadwyn,' datganodd y brenin. 'Yn wir, ni ddymunai erioed brynu cadwyn o'r fath.'

'Ond ... ond ... deuthum â'r gadwyn i lety Jeanne de la Motte yma yn Versailles,' meddai Ron a'i wyneb yn llawn syfrdan.

Mae'n debyg eich bod chi'r gwrandawyr wedi rhag-weld hyn. Ac yn wir, petaech chi wedi bod yno fe fyddech wedi gallu cynghori Ron a'i achub rhag llawer o chwithdod. Ac eto, efallai ddim. Oherwydd un gwael oedd Ron am wrando llais rheswm; cyngor Cagliostro, cyngor Jeanne, a llais ei uchelgais ei hun oedd yn mynd

â'i fryd. Ac yn awr rhaid iddo wrando ar lais oeraidd y brenin yn mynegi'r ffeithiau creulon. Ni dderbyniodd y Frenhines Marie Antoinette y gadwyn. Nid oedd ei heisiau chwaith.

Druan o Ron! Roedd ei freuddwydion yn deilchion.

Am y tro cyntaf mewn misoedd yr oedd ei feddwl yn glir. Nid y frenhines a dderbyniodd y diemwntau ond Jeanne. Ffugiwyd y llythyrau. Twyll oedd y cyfarfod ganol nos. A ffwlbri llwyr oedd proffwydoliaethau Cagliostro.

Yr oedd wedi cael ei dwyllo!

HYD: 6 munud. Gall y stori hon gael ei pherfformio fel meim. Mae angen pum person ac adroddwr. (Gall y person sy'n dynwared Cagliostro ddynwared y frenhines dwyll hefyd.)

NEGES: Dywed y Beibl wrthym pwy i wrando arno – a phwy i beidio â gwrando arno.

DARLLEN: Mathew 17: 1–5; 2 Pedr 2: 1–3

GWYBODAETH YCHWANEGOL:

Ganed Louis René Edouard Rohan yn 1734. Ar ôl helynt y gadwyn fe wynebodd achos o dwyll a bu'n rhaid iddo ddefnyddio ei holl wybodaeth i brofi ei fod wedi cael ei dwyllo gan Jeanne. O drwch blewyn bu iddo osgoi cael ei ddienyddio ar y gilotîn yn y Chwyldro Ffrengig.